

XRtistiaid: cefnogi gweithrediad technolegau ymgolli

Gwnewch gais am gyllid i arwain consortiwm i gyflenwi rhaglen arloesi ymchwil a datblygu creadigol tair-blynedd, XRtistiaid.

Byddwch yn cefnogi mabwysiad a gweithrediad technolegau ymgolli creadigol yn y sector celfyddydau a diwylliant ledled y DU.

Statws cyfle:

Ar agor

Cyllidwyr:

[Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau \(AHRC\)](#)

[Cyngor Celfyddydau Lloegr](#)

[Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon](#)

[Cyngor Celfyddydau Cymru](#)

[Creative Scotland](#)

Math o ariannu:

Grant

Cyfanswm y gronfa:

£6,000,000

Ystod y gwobrau:

£5,500,000 - £6,000,000

Dyddiad cyhoeddi:

9 Mai 2023

Dyddiad agor:

9 Mai 2023

Dyddiad cau:

13 Gorffennaf 2023 4:00yp amser y DU

Amserlen

Digwyddiad	Dyddiad	Cloc 12-awr amser y DU
Dyddiad agor	9 Mai 2023	9:00yb
Gweminar	25 Mai 2023	10:00yb to 11:30yb
Gweminar	6 Mehefin 2023	3:00yh to 4:30yh
Dyddiad cau	13 Gorffennaf 2023	4:00yh
Rhestr fer	Dechrau Tachwedd 2023	
Dyddiadau cyfwd	Canol Tachwedd 2023	
Cyfathrebu'r canlyniadau	Rhagfyr 2023	
Dechrau gwobrwo (gosodedig)	1 Chwefror 2024	

Crynodeb

Gwnewch gais am gyllid i arwain consortiwm i gyflenwi rhaglen arloesi ymchwil a datblygu creadigol tair-blynedd, XRtistiaid.

Byddwch yn cefnogi mabwysiad a gweithrediad technolegau ymgolli creadigol yn y sector celfyddydau a diwylliant ledled y DU.

Gall cost economaidd lawn (CEL) eich prosiect fod hyd at £6,000,000. Bydd AHRC yn ariannu:

- costau di-eithriadol am 80% CEL
- eithriadau (gan gynnwys cyllid datganoledig) am 100% CEL

Y cyfnod uchafswm yw tair blynedd.

Rhaid i'r prosiectau ddechrau ar 1 Chwefror 2024.

Mae'r cyfle cyllido hwn yn cael ei weinyddu gan AHRC ar ran yr holl bartneriaid cyllido.

Pwy all ymgeisio

Cyn gwneud cais am gyllid, sicrhewch y canlynol:

- [addasrwydd eich cynnig ar gyfer cyllid AHRC](#)
- [cymhwysedd eich sefydliad](#)
- [eich cymhwysedd fel unigolyn](#)
- [ffurflen ymholiad cylch gorchwyl](#) os nad ydych yn siŵr a yw eich ymchwil arfaethedig yn dod o fewn cylch gorchwyl AHRC

Pwy sy'n gymwys i wneud cais

Rydym yn chwilio am geisiadau gan gonsortiwm o sefydliadau a all, ar y cyd, ddarparu'r gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau sydd eu hangen ar gyfer y rhaglen XRtistiaid.

Rhaid i geisiadau gael eu harwain gan sefydliad sy'n gymwys i dderbyn cyllid UK Research and Innovation (UKRI) y DU (y prif ganolbwynt). Mae'n rhaid i gonsortia fod â phresenoldeb ar lawr gwlad ym mhob un o bedair gwlad y DU, gan gynnwys partneriaid sydd wedi'u lleoli mewn o leiaf dau ranbarth gwahanol yn Lloegr.

Consortia

Rhaid i gonsortia gynnwys o leiaf pum partner o bob rhan o'r DU. Bydd hyn yn cefnogi un canolbwynt ac o leiaf bedwar partner sydd wedi'u gwasgaru'n rhanbarthol ac mae'n rhaid iddynt gynnwys:

- dau bartner wedi'u lleoli yn Lloegr, ac mae'n rhaid i o leiaf un ohonynt fod y tu allan i Lundain
- un partner wedi'i leoli yng Ngogledd Iwerddon
- un partner wedi'i leoli yn yr Alban
- un partner wedi'i leoli yng Nghymru

Gall consortia gynnwys mwy o bartneriaid, gan gynnwys cymysgedd o bartneriaid o sefydliadau diwylliannol a'r sector masnachol yn ogystal â sefydliadau ymchwil. Bydd nifer a chyfuniad y partneriaid hyn yn cael eu penderfynu gan gonsortia yn seiliedig ar eu gallu i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion a gweithgareddau XRtistiaid.

Gall partneriaid consortiwm o sefydliadau diwylliannol a'r sector masnachol sy'n cyfrannu at ddarparu gweithgareddau XRtistiaid dderbyn arian gan sefydliad canolbwynt arweiniol y consortiwm i dalu am eu cyfranogiad.

Dim ond unwaith y gallwch chi geisio i fod yn sefydliad canolbwynt arweiniol, ond efallai y byddwch yn cael eich enwi fel partner ar sawl cais arall.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Rydym wedi ymrwmo i sicrhau cyfle cyfartal i bob ymgeisydd cyllido. Rydym yn annog ceisiadau gan ystod amrywiol o ymchwilwyr.

Rydym yn cefnogi pobl i weithio mewn ffordd sy'n addas i'w hamgylchiadau personol. Mae hyn yn cynnwys:

- toriadau gyrfa
- cymorth i bobl â chyfrifoldebau gofalu
- gweithio hyblyg
- patrymau gweithio amgen

Dysgwch fwy am [cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn UKRI](#).

Yr hyn rydym ni'n edrych amdano

Cwmpas

Mae AHRC a phob un o bedwar corff datblygu celfyddydau cenedlaethol y DU eisiau comisiynu consortiwm i ddatblygu a chyflwyno rhaglen arloesi ymchwil a datblygu creadigol tair blynedd, XRtistiaid. Mae hyn yn adeiladu ar ddysg a llwyddiannau'r rhaglenni [Creative XR](#) a'r [Creative Industries Clusters](#).

Bydd y rhaglen yn cefnogi mabwysiad a gweithrediad technolegau ymgolli creadigol, a lle bo technolegau newydd eraill priodol â'r potensial i ddylanwadu ar ddatblygiad ymarfer creadigol o fewn y sector celfyddydau a diwylliant ledled y DU.

Bydd y consortiwm yn tynnu ynghyd bartneriaid sydd â gwybodaeth ac arbenigedd perthnasol o bob rhan o sefydliadau diwylliannol, y sector masnachol a sefydliadau ymchwil. Bydd y consortiwm yn cyflawni'r rhaglen yn unol â'r amcanion a'r targedau a osodwyd gan y partneriaid cyllido.

Amcanion

Yr amcanion yw:

- cefnogi'r sector celfyddydau a diwylliant yn y DU i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth mewn cynnwys ymgolli a datblygu profiadau, cynhyrchu a dosbarthu
- datblygu piblinell o gyfleoedd ariannu i gefnogi sefydliadau ac unigolion ar raddfeydd a pharodrwydd gwahanol
- cefnogi cyflwyno a dosbarthu arloesedd ymgolli newydd a alluogwyd gan XRtistiaid drwy ddigwyddiad arddangos diwydiant blynyddol, hyrwyddo a dathlu prosiectau sy'n deillio o'r rhaglen
- cefnogi cyfnewid gwybodaeth a mentora mewn cynhyrchu a dosbarthu ymgolli rhwng y sectorau academiaidd, diwydiannau creadigol a chelfyddydau a diwylliant
- cefnogi cydweithio ac ecoleg gan adeiladu ar draws holl ranbarthau'r DU er mwyn cryfhau'r diwydiannau ymgolli creadigol yn y DU
- cynnal ymchwil a mapio a fydd yn cefnogi twf sector celfyddydau a diwylliant y DU a'r diwydiannau ymgolli creadigol yn yr hir dymor
- datblygu brand rhaglen a hunaniaeth ar gyfer XRtistiaid sy'n cael ei ddeall yn eang ac yn uchel ei barch, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol
- hyrwyddo'n rhagweithiol a galluogi amrywiaeth a chydardoldeb cyfleoedd i gymryd rhan yn y gwaith o greu a mwynhau cynyrchiadau ymgolli creadigol gan bobl o bob cefndir ac ar draws holl rannau o'r DU

Beth fydd disgwyl i'r consortiwm llwyddiannus ei gyflawni

Bydd y consortiwm llwyddiannus yn darparu pedair prif elfen o weithgarwch er mwyn galluogi gwirediad yr amcanion ar draws y DU:

- rhedeg rhaglenni ariannu datganoledig (isafswm o 60% o gyfanswm y gyllideb)
- darparu hyfforddiant a datblygu sgiliau ar gyfer unigolion a sefydliadau diwylliannol neu creadigol
- gwneud ymchwil
- trefnu digwyddiad arddangos diwydiant blynyddol

Dylai consortia hefyd gynnig gweithgareddau a strategaethau ymgysylltu ychwanegol i gefnogi gwireddu amcanion nad ydynt yn rhan o'r pedwar llinyn, megis:

- adeiladu ecoleg

- rhwydweithiau cynnull
- datblygu hunaniaeth brand sy'n ystyrlon i'r sector.

Arian wedi'i ddatganoli

Bydd y consortiwm yn defnyddio o leiaf 60% (£3,600,000) o'r gyllideb dyfarniad i ddatblygu a chynnal rhaglenni ariannu datganoledig dros dair blynedd y dyfarniad. Bydd yr arian datganoledig yn ddigon ar gyfer tua 200 i 250 o wobrau i gyd, gan gefnogi tair lefel o ymgeiswyr:

- lefel mynediad: mae disgwyl i'r gwobrau hyn amrywio o £5,000 i £10,000. Nod y gwobrau yw cefnogi prosiectau ymchwil a datblygu graddfa-fach i sefydliadau ac unigolion sydd â phrofiad blaenorol cyfyngedig o dechnolegau ymgolli i brofi syniadau neu broflenni cysyniad a allai arwain at gymwysiadau ar gyfer ariannu prototeip
- prototeip: disgwylir i'r dyfarniadau hyn fod rhwng £20,000 a £25,000. Bydd disgwyl i'r gwobrau prototeip wthio ffiniau cynhyrchu ymgolli creadigol. Gallai rhai gwobrau gynorthwyo prosiectau ymchwil a datblygu graddfa-fach i drawsnewid i fod yn brototeipiau graddfa-lawm. I gefnogi datblygiad prototeip dylai'r consortiwm roi mynediad i fentoriaid, gweithdai a chyfleusterau yn ogystal â chyllid ar gyfer cynhyrchu
- cyllid dilynol: disgwylir i'r gwobrau hyn fod yn yr ystod o £50,000 gyda'r nod o alluogi nifer fach o'r prototeipiau llwyddiannus i barhau i ddatblygu. Bydd yr arian hwn yn cefnogi prosiectau sy'n wynebu'r gynulleidfa i fod yn barod ar gyfer y farchnad ac yn gynaliadwy yn y tymor hwy

Rydyn ni'n sylweddoli bod 200 i 250 yn nifer fawr o brosiectau datganoledig, ond mae rhywfaint o foddelu sylfaenol yn cael ei ddarparu fel enghraifft o sut y gallai hyn weithredu o flwyddyn i flwyddyn.

Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3
<ul style="list-style-type: none"> • 40 gwobr lefel mynediad • 27 gwobr brototeip 	<ul style="list-style-type: none"> • 45 gwobr lefel mynediad • 27 gwobr brototeip • 7 gwobr ddilynol 	<ul style="list-style-type: none"> • 45 gwobr lefel mynediad • 27 gwobr brototeip • 7 gwobr ddilynol

Ni fydd unrhyw bartneriaid sy'n rhan o'r consortiwm llwyddiannus yn gymwys i wneud cais am gyllid datganoledig.

Bydd disgwyl i'r consortiwm llwyddiannus ddangos yn glir sut y byddant yn sicrhau bod cyfleoedd y rhaglen ar gael yn eang a'r buddion wedi'u gwasgaru ar draws pedair gwlad y DU.

Bydd y consortiwm llwyddiannus yn gweithio gyda'r partneriaid cyllido i sicrhau bod yr arian datganoledig yn cwrdd â thelerau ac amodau angenrheidiol y dyfarniad cyffredinol. Bydd angen i gonsortia ystyried sut bydd y cyllid datganoledig yn cael ei ddyrannu trwy broses adolygu ac asesu briodol.

Rhaid i ddyrannu'r cronfeydd datganoledig fod yn deg ac yn dryloyw ac o fewn fframwaith [egwyddorion asesu a phenderfyniadau UK Research and Innovation \(UKRI\)](#).

Hyfforddiant a datblygu sgiliau

Bydd angen i'r consortiwm gynnig pecyn datblygu sgiliau a darparu rhaglenni hyfforddiant lefel-mynediad neu ragarweiniol. Bydd hyn yn galluogi mynediad i gyfleusterau, arbenigedd a mentora i sefydliadau ac unigolion o bob cwr o'r DU gyda phrofiad blaenorol cyfyngedig o gynhyrchu XR.

Dylai'r consortiwm ystyried:

- sut y gellir cefnogi cyfranogwyr i wneud cais am y gwobrau lefel-mynediad ar ddiwedd yr hyfforddiant lle bo hyn yn briodol
- sut y gallai buddiolwyr rhaglen symud ymlaen o gyllid lefel mynediad i brototeip a chyllid dilynol mewn camau diweddarach

Ymchwil

Bydd y consortiwm yn gwneud ymchwil a mapio a fydd yn cefnogi mabwysiad a gweithrediad technolegau ymgolli creadigol o fewn y sector celfyddydau a diwylliant ledled y DU.

Disgwylir i'r consortiwm ymgysylltu â rhanddeiliaid o sector y celfyddydau a diwylliant y DU a'r diwydiannau ymgolli creadigol i sefydlu'r blaenoriaethau ymchwil.

Mae enghreifftiau o feysydd ymchwil y gellid eu harchwilio yn cynnwys y canlynol:

- sut mae prosiectau ymgolli creadigol yn cael eu dwyn i'r farchnad a'u dosbarthu er budd cynulleidfaoedd
- profiad y gynulleidfa o ac ymgysylltu â phrosiectau ymgolli creadigol
- modelau busnes ac ariannu ar gyfer prosiectau ymgolli creadigol
- sut mae natur cynrychiadau/perfformiadau yn newid mewn ymateb i ddefnydd technoleg
- sgiliau a hyfforddiant gweithlu

Digwyddiad arddangos diwydiant blynyddol

Bydd y consortiwm yn datblygu ac yn cynnal digwyddiad arddangos diwydiant blynyddol. Nod y digwyddiad arddangos fydd creu proffil cenedlaethol a rhyngwladol ar gyfer y rhaglen XRtistiaid a'i allbynnau ac i ddenu cyfleoedd dosbarthu a buddsoddi. Nid oes angen cynnal y digwyddiad yn yr un lleoliad bob blwyddyn, gall newid lleoliad i adlewyrchu amrywiaeth ddaearyddol y rhaglen.

Hyd

Hyd y wobwr hon yw 36 mis.

Rhaid i'r prosiectau ddechrau erbyn 1 Chwefror 2024.

Cyllid ar gael

Mae'r partneriaid cyllid wedi dyrannu £6,000,000 ar gyfer y cyfle hwn ar y lefel CEL.

Bydd y gweithgaredd ariannu datganoledig yn cynrychioli isafswm o 60% o gyfanswm y gyllideb a dylid ei gostio am 100% CEL. Dylid costio costau eraill (nad ydynt yn eithriadau) am 80% CEL yn unol â [thelerau ac amodau safonol UKRI](#).

Bydd disgwyl i gonsortia neilltuo o leiaf 60% o gyfanswm y wobwr (£3,600,000) i'w ddsbarthu trwy gyllid datganoledig. Dylid rhannu'r gyllideb ariannu ddatganoledig fel a ganlyn:

- lefel mynediad: 30%
- prototeip: 50%
- dilynol: 20%

Enghraifft o gyfanswm y dadansoddiad cyllid a'r cyllid datganoledig:

Eitem		Canran y wobwr
<p>Cyllid consortiwm i gael ei wario drwy weithgareddau ariannu datganoledig:</p> <ul style="list-style-type: none"> gwobrau lefel mynediad (£5,000 i £10,000 yr un) gwobrau prototeip (£20,000 yr un) gwobrau dilynol (£50,000 yr un) 	<ul style="list-style-type: none"> 145 gwobr lefel mynediad 75 gwobr brototeip 14 gwobr ddilynol <p>£3.6m am 100% CEL</p>	60%
<p>Dyraniad ar gyfer gweithgareddau cymorth consortiwm:</p> <ul style="list-style-type: none"> costau staff, gweinyddu a gorbenion gwefan rhaglen benodol hyfforddiant a ddatblygwyd gan y consortiwm ar gyfer ymarferwyr creadigol, cynrychiolwyr diwydiant ac academyddion ymchwil a wnaed gan y consortiwm costau digwyddiadau, gan gynnwys trefnu'r digwyddiad arddangos blynyddol 	<p>£2.4m am 100% CEL (gan gynnwys cyfraniad safonol ychwanegol y sefydliad ymchwil o 20% sy'n ofynnol ar gyfer yr holl gostau di-eithriadol)</p>	40%

Rheolaeth

Bydd angen i'r consortiwm gyflwyno cynllun rheoli cryf a strwythurau gweithredol i ddarparu rhaglen o'r raddfa hon. Wrth adeiladu'r tîm consortiwm, fe'ch annogir i ystyried yr ystod o alluoedd y bydd eu hangen arnoch i gyflawni'r amcanion a'r gweithgareddau.

Gallai hyn gynnwys:

- arweinyddiaeth o'r canolbwynt (rôl cyfarwyddwr a chyd-gyfarwyddwyr os yn briodol)
- rôl sefydliadau partner
- rheolaeth a gweinyddiaeth rhaglenni
- cyfathrebu ac ymgysylltu (gan gynnwys gyda chyllidwyr, gwobrau datganoledig, a thirwedd ehangach rhanddeiliaid a buddiolwyr rhaglenni posibl)
- cefnogi cyfleoedd datblygu busnes posib y gellir eu creu
- monitro ac adrodd perfformiad

Gallwch ddefnyddio adnoddau presennol, naill ai o fewn sefydliad ymchwil neu sefydliad partner wrth adeiladu eich timau.

Llywodraethu

Bydd y partneriaid cyllido yn cynnull fforwm cyllidwyr i ddarparu goruchwyliaeth o'r rhaglen a sicrhau bod y consortiwm yn cael ei gefnogi yn ei weithgareddau. Bydd disgwyl i arweinydd y consortiwm ymgysylltu â'r grŵp hwn a mynychu cyfarfodydd fforwm lle bo angen. Bydd y partneriaid cyllido hefyd yn gweithio gyda'r consortiwm llwyddiannus i gynnull grŵp cynghori a fydd yn cynnwys cynrychiolaeth annibynnol gan arweinwyr y sector, ymarferwyr creadigol a diwylliannol ac academyddion.

Rhaid i'r consortiwm llwyddiannus sicrhau bod ganddynt strwythurau llywodraethu cadarn ar waith gyda phob partner yn ymrwymedig iddynt. Dylai'r mecanweithiau llywodraethu (er enghraifft grwpiau llywio neu reoli, neu'r ddau) fod yn briodol i gefnogi cyflwyno'r rhaglen yn llwyddiannus, yn strategol ac yn weithredol, heb fod yn or-feichus.

Bydd yn ofynnol i gonsortia ddarparu diweddariadau ac adroddiadau rheolaidd i'r cyllidwyr, gyda dangosyddion perfformiad allweddol a metrigau i'w cytuno ar ôl y dyfarniad.

Monitro a gwerthuso perfformiad

Dylai consortia sicrhau bod eu bod yn rhoi ystyriaeth fanwl i fonitro perfformiad gweithgareddau, allbynnau ac effeithiau'r consortiwm o'r cychwyn cyntaf er mwyn olrhain cyfraniad ac effeithiau'n effeithiol ar draws y sector diwylliannol a chreadigol. Bydd angen i gonsortia ddarparu diweddariadau ac adroddiadau rheolaidd i'r cyllidwyr, gyda dangosyddion perfformiad allweddol a metrigau i'w cytuno ar ôl y dyfarniad.

Bydd y partneriaid cyllido yn comisiynu gwerthusiad allanol o'r rhaglen a bydd disgwyl i'r consortiwm llwyddiannus ymgysylltu â'r gwerthuswr a'u prosesau, gan gynnwys darparu data perthnasol, yn ôl y gofyn.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Rhaid i'r consortiwm ddangos ymrwymiad i adeiladu rhaglen weithgareddau gynhwysol a thîm arwain a rheoli sy'n adlewyrchu amrywiaeth y DU ac sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cyfle cyfredol.

Rhaid i chi sicrhau bod mesurau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant rhagweithiol yn cael eu hadeiladu i mewn i strwythur y consortiwm a'i weithgareddau ar lefel sylfaenol. Dylai'r ymrwymiad hwn i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gynnwys dylunio a darparu'r gweithgareddau cyllid, hyfforddiant a digwyddiadau datganoledig sy'n cael eu cynnal gan y consortiwm.

Sylwch fod hyrwyddo a galluogi amrywiaeth a chydraddoldeb cyfleoedd yn rhagweithiol i gymryd rhan yn y gwaith o greu a mwynhau cynrychiadau ymgolli creadigol yn un o amcanion craidd y rhaglen.

Cynaliadwyedd

Dylai'r consortiwm ddangos sut y byddant yn mynd i'r afael â materion cynaliadwyedd amgylcheddol yn eu gweithgareddau ac yn mynd ati'n rhagweithiol i leihau eu heffaith amgylcheddol a'u hól troed carbon.

Dylai rhaglen XRtistiaid anelu at chwarae rhan arweiniol yn natblygiad arfer gorau mewn perthynas â phrosesau dylunio a datblygu cynaliadwy o fewn prosiectau ymgolli creadigol. Dylai'r consortiwm hefyd annog ymagwedd rhagweithiol gan y rhai sy'n derbyn yr arian datganoledig.

Cefnogi sgiliau a thalent

Rydym yn eich annog i ddilyn egwyddorion y [Concordat i Gefnogi Datblygiad Gyrfa Ymchwilwyr](#) a'r [Ymrwymiad Technegwyr](#).

Sut i wneud cais

Gwasanaeth Cyllido Ymchwil ac Arloesedd y DU (UKRI)

Rydym yn cynnal y cyfle ariannu ar Wasanaeth Ariannu UKRI newydd. Ni allwch wneud cais am y cyfle ariannu hwn ar y system Cyflwyniadau Electronig ar y Cyd (Je-S).

Os nad oes gennych gyfrif eisoes gyda Gwasanaeth Cyllido UKRI, bydd modd i chi greu un drwy ddewis y botwm 'cychwyn cais' ar ddechrau'r dudalen hon. Mae creu cyfrif yn broses ddau-funud sy'n cynnwys dilysu eich cyfeiriad e-bost a gosod cyfrinair.

Os ydych yn aelod o sefydliad sydd â swyddfa ymchwil nad oes gennym fanylion cyswllt ar ei chyfer, byddwn yn cysylltu â'r sefydliad i alluogi mynediad gweinyddwr. Mae cyfrif yn galluogi:

- goruchwyllo pob cais Gwasanaeth Ariannu UKRI a agorwyd ar ran eich sefydliad
- adolygu a chyflwyno ceisiadau

Dylai swyddfeydd ymchwil sydd eisoes heb dderbyn gwahoddiad i agor cyfrif anfon e-bost at support@funding-service.ukri.org

Cyflwyno eich cais

Dylid paratoi a chyflwyno ceisiadau gan y sefydliad ymchwil arweiniol ond dylid eu cyd-greu gyda mewnbwn gan yr holl ymchwilwyr, a phartneriaid prosiect, a dylai gynrychioli gwaith arfaethedig y consortia cyfan.

I wneud cais:

1. Dewiswch y botwm 'Dechrau cais' ar ddechrau'r dudalen hon.
2. Bydd hyn yn agor y dudalen 'Arwyddo i mewn' Gwasanaeth Cyllido UKRI. Os nad oes gennych gyfrif yn barod, bydd modd i chi greu un. Mae hon yn broses ddau-funud sy'n cynnwys dilysu eich cyfeiriad e-bost a gosod cyfrinair.
3. Dechreuwch ateb y cwestiynau a nodir yn yr adran hon o 'Sut i ymgeisio'. Gallwch arbed eich gwaith a dod yn ôl ato yn nes ymlaen. Gallwch hefyd weithio 'all-lein', copïo a gludo i mewn i'r blychau testun a ddarperir ar gyfer eich atebion.
4. Ar ôl ei gwblhau, defnyddiwch y gwasanaeth i anfon eich cais i'ch swyddfa ymchwil i'w adolygu. Byddan nhw'n ei wirio a'i ddychwelyd atoch os oes angen ei olygu.
5. Unwaith y byddant yn fodlon ag ef, bydd eich swyddfa ymchwil yn ei gyflwyno i UKRI i'w asesu. Dim ond nhw sy'n gallu gwneud hyn.

Gan y gall dyfyniadau fod yn rhan annatod o achos am gefnogaeth, dylech gydbwysu eu cynnwys a'r budd y maent yn ei ddarparu yn erbyn cynnwys rhannau eraill o'ch ateb i bob cwestiwn. Cofiwch fod dyfyniadau, rhestrau cyfeirio neu lyfryddiaethau cysylltiedig, neu'r ddau, yn cyfrannu at, ac yn cael eu cynnwys yng nghyfanswm geiriau'r adran berthnasol.

Dyddiad cau

Rhaid i AHRC dderbyn eich cais erbyn 13 Gorffennaf 2023 am 4:00yp amser y DU.

Ni fyddwch yn gallu ymgeisio ar ôl yr amser hwn.

Dylech sicrhau eich bod yn ymwybodol o unrhyw ddyddiadau cau sefydliadol mewnol a allai fod yn weithredol.

Testun cyffredinol ar brosesu data personol

Bydd angen i AHRC fel rhan o UKRI gasglu ychydig o wybodaeth bersonol er mwyn rheoli eich cyfrif gwasanaeth cyllido a chofrestru eich ceisiadau am gyllid.

Byddwn yn trin data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data'r Deyrnas Unedig ac yn ei rheoli'n ddiogel. I gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys sut i ymarfer eich hawliau, darllenwch ein [hysbysiad preifatrwydd](#).

Bydd angen i AHRC fel rhan o UKRI rannu'r cais ac unrhyw wybodaeth bersonol y mae'n ei chynnwys gyda chyd-gyllidwyr fel y gallant gymryd rhan yn y broses asesu. I gael rhagor o wybodaeth am sut mae cyd-gyllidwyr yn defnyddio gwybodaeth bersonol, ewch i'w gwefannau:

- [Cyngor Celfyddydau Lloegr](#)
- [Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon](#)
- [Cyngor Celfyddydau Cymru](#)
- [Creative Scotland](#)

Testun cyffredinol ar gyhoeddi canlyniadau:

Bydd AHRC, fel rhan o UKRI, yn cyhoeddi canlyniadau'r cyfle cyllido hwn yn: [canlyniadau byrddau a phaneli – AHRC](#)

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd rhywfaint o wybodaeth bersonol yn cael ei chyhoeddi drwy [Borth Ymchwil UKRI](#).

Gwasanaeth Ariannu UKRI: canllawiau adran

Crynodeb

Mewn Saesneg syml, rhowch grynodeb y gellir ei anfon at adolygwyr posib i benderfynu a yw eich cynnig o fewn eu maes arbenigedd.

Efallai bydd y crynodeb hwn ar gael i'r cyhoedd ar wefannau allanol, felly sicrhewch y gall amrywiaeth o ddarllenwyr ei ddeall, er enghraifft:

- llunwyr barn
- llunwyr polisïau
- y cyhoedd yn gyffredinol
- y gymuned ymchwil ehangach

Canllawiau ar gyfer ysgrifennu crynodeb

Disgrifiwch yn gryno eich gwaith arfaethedig o ran:

- ei gyd-destun

- yr her y mae'r prosiect yn mynd i'r afael â hi a sut y bydd yn cael ei gymhwyso iddi
- ei nodau a'i amcanion
- ei gymwysiadau a'i fuddion posibl

Cyfanswm geiriau: 500

Ymgeiswyr

Rhestrwch aelodau allweddol eich tîm a neilltuwch rolau iddynt, er enghraifft:

- prif ymchwilydd
- partner busnes
- cyd-ymchwilydd
- ymchwilydd
- technegydd

Dim ond un unigolyn y dylech ei restru fel prif ymchwilydd.

Dull

Cwestiwn: **Sut ydych chi'n mynd i gyflawni eich gwaith arfaethedig?**

Yr hyn mae'r aseswyr yn chwilio amdano yn eich ateb

Esboniwch sut rydych wedi cynllunio eich dull fel ei fod:

- yn effeithiol ac yn briodol i gyflawni eich amcanion
- yn ymarferol, ac yn nodi'n gynhwysfawr unrhyw risgiau i'w cyflawni a sut y byddant yn cael eu rheoli
- yn sicrhau rhaglen gydlynol o weithgareddau ar draws y pedwar llinyn cyflenwi
- yn cyfrannu at ddatblygu arferion ymgolli creadigol ar draws y DU
- yn hyrwyddo amrywiaeth yn rhagweithiol ac yn darparu cyfleoedd teg a chyfartal i sefydliadau creadigol a diwylliannol ledled y DU
- os yn berthnasol, yn defnyddio methodoleg glir a thryloyw
- yn crynhoi unrhyw waith blaenorol ac yn disgrifio sut y bydd hyn yn cael ei adeiladu arno a'i symud ymlaen
- yn uchafu trosiad allbynnau yn ganlyniadau ac effeithiau
- yn disgrifio sut y bydd amgylchedd ymchwil eich tîm (o ran y lle, ei leoliad, enw da a pherthnasedd i'r prosiect) yn cyfrannu at lwyddiant y gwaith

Yn yr adran 'dull gweithredu' rydym hefyd yn disgwyl i chi:

- ddarparu cynllun prosiect manwl a chynhwysfawr gan gynnwys cerrig milltir a llinelloedd amser. Rhaid i hyn fod ar ffurf siart Gantt neu debyg (atodiad un-dudalen A4 ychwanegol gorfodol)
- egluro'n glir rôl a chyfraniad partneriaid
- nodi a chyfrif i fuddiolwyr buddion uniongyrchol neu anuniongyrchol posibl

Cyfanswm geiriau: 4,000

Gallu ymgeisydd a thîm i gyflenwi

Cwestiwn: Pam mai chi yw'r unigolyn neu'r tîm cywir i gyflawni'r gwaith arfaethedig yn llwyddiannus?

Yr hyn mae'r aseswyr yn chwilio amdano yn eich ateb

Tystiolaeth o sut mae gennych chi, ac os yn berthnasol, eich tîm:

- y profiad perthnasol (sy'n briodol i gyfnod gyrfa) i gyflawni'r gwaith arfaethedig
- y cydbwysedd sgiliau ac arbenigedd cywir i ymdrin â'r gwaith arfaethedig
- y sgiliau arwain a rheoli priodol i gyflawni'r gwaith a'ch dull o ddatblygu eraill

Y cyfanswm geiriau ar gyfer yr adran hon yw 2,000 o eiriau, 1,500 o eiriau i'w defnyddio ar gyfer modiwlau R4RI ac, os oes angen, 500 o eiriau pellach ar gyfer ychwanegiadau.

Defnyddiwch y fformat Résumé for Research and Innovation (R4RI) i arddangos yr ystod o sgiliau perthnasol sydd gennych chi, ac os yn berthnasol eich tîm (ymchwilyr, staff eraill (technegol) er enghraifft peirianwyr meddalwedd ymchwil, gwyddonwyr data ac yn y blaen, a phartneriaid), a sut y bydd hyn yn helpu i ddarparu'r gwaith arfaethedig. Gallwch gynnwys cyflawniadau penodol unigolion ond dim ond dewis cyfraniadau gorffennol sy'n dystiolaeth orau o'r gallu i gyflawni'r gwaith hwn.

Cwblhewch yr adran hon gan ddefnyddio'r penawdau modiwl R4RI. Dylech ddefnyddio pob pennawd unwaith a chynnwys ymateb i'r tîm cyfan, gweler [canllawiau UKRI ar R4RI](#). Dylech ystyried sut i gydbwysu eich ateb, a phwysleisio lle bo'n briodol y sgiliau allweddol sydd gan bob aelod o'r tîm:

Dyma'r penawdau modiwl R4RI:

- cyfraniadau i gynhyrchiad syniadau, offer, methodolegau, neu wybodaeth newydd
- datblygu eraill a chynnal perthnasoedd gwaith effeithiol
- cyfraniadau i'r gymuned ymchwil ac arloesi ehangach
- cyfraniadau i ddefnyddwyr ymchwil neu arloesi ehangach a chynulleidfaoedd a thuag at fudd cymdeithasol ehangach
- ychwanegiadau (gallwch ddefnyddio'r pennawd hwn i ddarparu gwybodaeth sy'n rhoi cyd-destun i'r cymhwysiad ehangach, megis manylion am doriadau gyrfa. Nid yw'n ofyniad)

Ychwanegiadau: darparu unrhyw fanylion pellach sy'n berthnasol i'ch cais. Mae'r adran hon yn ddewisol a gall fod hyd at 500 o eiriau. Ni ddylech ei ddefnyddio i ddisgrifio sgiliau, profiadau neu allbynnau ychwanegol, ond gallwch ei ddefnyddio i ddisgrifio unrhyw ffactorau sy'n rhoi cyd-destun i weddill eich R4RI (er enghraifft, manylion seibiant gyrfa os ydych am eu datgelu).

Dylech chi gwblhau hyn fel naratif a dylech osgoi fformat math braslun gyrfa.

Cyfanswm geiriau: 2,000

Partneriaid y prosiect: cyfraniadau

Cwestiwn: **rhowch fanylion am gyfraniadau unrhyw bartneriaid prosiect gan ddefnyddio'r templed a ddarperir.**

Yr hyn mae'r aseswyr yn chwilio amdano yn eich ateb

Os nad oes gennych unrhyw bartneriaid prosiect, ysgrifennwch 'Ddim yn berthnasol' yn y blwch testun, nodwch yr adran hon fel un sy'n gyflawn a symudwch i'r adran nesaf.

Os oes gennych bartneriaid prosiect, [lawrlwythwch a chwblhewch y templed cyfraniadau partner prosiect \(DOCX, 52KB\)](#) yna copi'wch a gludwch y tabl ynddo i mewn i'r blwch testun.

Sicrhewch eich bod wedi cytuno'n flaenorol gyda'ch partneriaid prosiect, os byddwch yn cael cynnig cyllid, y byddant yn cefnogi eich prosiect fel y nodir yn y templed.

Cyfanswm geiriau: 500

Partneriaid Prosiect: llythyrau (neu e-byst) cefnogaeth

Cwestiwn: **Uwchlwythwch PDF sy'n cynnwys llythyrau neu e-byst cefnogaeth gan bob partner a enwir gennych yn y tabl yn yr adran 'cyfraniadau' blaenorol.**

Yr hyn mae'r aseswyr yn chwilio amdano yn eich ateb

Os nad oes gennych unrhyw bartneriaid prosiect, ysgrifennwch 'Ddim yn berthnasol' yn y blwch testun, nodwch yr adran hon fel un sy'n gyflawn a symudwch i'r adran nesaf.

Os ydych wedi enwi partneriaid y prosiect yn yr adran 'cyfraniadau' blaenorol, rhowch y geiriau 'atodiad wedi'i ddarparu' yn y blwch testun.

Dylai pob llythyr neu e-bost a ddarparir gennych:

- gadarnhau ymrwymiad y partner i'r prosiect
- esbonio'n glir werth, perthnasedd a manteision posibl y gwaith iddynt
- ddisgrifio unrhyw werth ychwanegol a ddaw yn eu sgil i'r prosiect

Cyfeiriwch at ganllaw cyllid AHRC i gael rhagor o arweiniad.

Peidiwch â darparu llythyrau cefnogaeth gan sefydliadau ymchwil gwesteiwr a chyd-ymchwilydd. Oni bai y gofynnir i chi am hynny'n benodol, peidiwch â chynnwys unrhyw ddata personol yn yr atodiad.

Darperir manylion uwchlwytho oddi mewn i'r gwasanaeth ar y cais ei hun.

Os gwneir dyfarniad, mae UKRI yn mynnu bod cytundebau cydweithio ffurfiol yn cael eu sefydlu at ddibenion archwilio.

Cynllun rheoli data (CRhD)

Cwestiwn: **Sut fyddwch chi'n rheoli a rhannu data sy'n cael ei gasglu neu ei gaffael drwy'r ymchwil arfaethedig?**

Yr hyn mae'r aseswyr yn chwilio amdano yn eich ateb

Darparwch CRhD sy'n amlinellu dull eich prosiect o reoli data.

Rhaid i chi ddilyn canllawiau AHRC ar ysgrifennu CRhD, sydd wedi eu cynnwys yng [nghanllaw cyllido](#) AHRC.

Yn dilyn arweiniad CRhD AHRC, dylech ddisgrifio:

- sut mae eich dull o reoli data yn briodol ar gyfer y prosiect ymchwil sy'n cael ei gynnig
- sut y bydd y CRhD yn galluogi creu, allbynnau ac anghenion storio data'r prosiect
- sut mae'r cynllun ar gyfer data yn ymarferol, yn synhwyrol, yn briodol ac yn ddilys

Cyfanswm geiriau: 1,000

Moeseq ac ymchwil ac arloesedd cyfrifol (YAC)

Cwestiwn: **Beth yw'r goblygiadau moeseqol neu YAC a materion sy'n ymwneud â'r gwaith arfaethedig? Os nad ydych yn credu bod y gwaith arfaethedig yn codi unrhyw faterion moeseqol neu YAC, esboniwch pam.**

Yr hyn mae'r aseswyr yn chwilio amdano yn eich ateb

Gan ddefnyddio'r blwch testun, dangoswch eich bod wedi nodi a gwerthuso'r ystyriaethau ymchwil ac arloesedd moeseqol neu gyfrifol perthnasol, a sut y byddwch yn eu rheoli.

Cyfanswm geiriau: 500

Adnoddau a chyfiawnhad costau

Cwestiwn: **Beth fydd ei angen arnoch i gyflawni eich gwaith arfaethedig a faint fydd yn ei gostio?**

Yr hyn mae'r aseswyr yn chwilio amdano yn eich ateb

Lawrlwythwch y [templod CEL \(DOCX, 97KB\)](#), cwblhewch ef ac yna uwchlwythwch ef fel yr eglurwyd.

Gan ddefnyddio'r blwch testun, dangoswch sut mae'r adnoddau rydych chi'n rhagweld eu hangen ar gyfer eich gwaith arfaethedig:

- yn gynhwysfawr, yn briodol, ac yn gyfiawn
- yn cynrychioli'r defnydd gorau posibl o adnoddau i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig
- yn uchafu'r canlyniadau a'r effeithiau dichonadwy
- sut y bydd y gyllideb neilltuedig ar gyfer cyllid datganoledig yn cael ei dyrannu

Yn syml, ni ddylai'r adran hon fod yn rhestr o'r adnoddau y gofynnir amdanynt, gan y bydd y rhain eisoes wedi'u rhestru yn y tabl 'costau' manwl. Dylid cyfiawnhau costau ar sail [CEL](#) y prosiect, ac nid yn unig ar y costau a ddisgwyllir gan UKRI. Ar gyfer rhai eitemau, nid ydym yn disgwyl i chi gyfiawnhau'r gwerth ariannol; yn hytrach, y math o adnodd, megis y maint o amser neu'r math o staff a ofynnwyd amdanynt.

Os nad ydych yn darparu cyfiawnhad digonol ar gyfer adnodd, efallai y byddwn yn ei ddiynnu o unrhyw gyllid a ddyfarnwyd.

Dylech nodi:

- cefnogaeth i weithgareddau i naill ai gynyddu effaith, ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd, cyfnewid gwybodaeth neu i gefnogi arloesedd cyfrifol
- cefnogaeth i gael mynediad at gyfleusterau, seilwaith a/neu gaffael offer
- cefnogaeth i gadw, storio hirdymor, neu rannu data
- cefnogaeth gan eich sefydliad neu fudiadau partner a sut mae hynny'n gwella gwerth am arian

Cyfanswm geiriau: 1,000

Sut y byddwn yn asesu eich cais

Byddwn yn asesu eich cais gan ddefnyddio'r broses ganlynol.

Adolygiad gan gyfoedion

Byddwn yn gwahodd adolygwyr cyfoedion arbenigol i adolygu eich cais yn annibynnol, yn erbyn y meini prawf penodedig ar gyfer y cyfle ariannu hwn.

Rhestr fer

Yn dilyn adolygiad gan gymheiriaid, bydd panel o arbenigwyr yn cymedroli'r sgoriau adolygu cyfoedion a sylwadau yn erbyn y meini prawf. Yna bydd y panel yn cytuno ar restr raddedig o geisiadau ac fe fydd hyd at bum cais yn cael eu gwahodd i gyfweiliad.

Os na gaiff eich cais ei ddewis ar gyfer cyfweiliad, byddwch yn derbyn eich adolygiadau cymheiriaid fel adborth.

Cyfweiliad

Ar gyfer ceisiadau ar y rhestr fer, bydd panel cyfweld arbenigol yn cynnal cyfweiliadau â chi ac ar ôl hynny bydd y panel yn gwneud argymhelliad cyllid i'r partneriaid cyllido. Bydd y sylwadau adolygiad cymheiriaid arbenigol yn rhan o'r asesiad cyfweiliad a dylech fod yn barod i ateb cwestiynau ar themâu y cyfeirir atynt yn eich adolygiadau.

Rydym yn disgwyl i gyfweiliadau gael eu cynnal yn rhithiol gan ddefnyddio fideo-gynadledda yng nghanol mis Tachwedd 2023.

Adborth cyfweiliad

Yn dilyn y broses cyfweld, bydd y panel yn rhoi adborth cyffredinol yn crynhoi cryfderau a gwendidau pob cais.

Egwyddorion asesu

Rydym yn cefnogi [datganiad San Francisco ar asesiad ymchwil](#) ac yn cydnabod y berthynas rhwng asesiad ymchwil a chywirdeb.

Dysgwch am [egwyddorion asesu a gwneud penderfyniadau UKRI](#).

Rydym yn cadw'r hawl i addasu'r broses asesu yn ôl yr angen.

Meini prawf asesu

Adran: dull gweithredu

Ydy'r ymgeiswyr wedi dangos eu bod wedi cynllunio eu dull gweithredu fel ei fod:

- yn effeithiol ac yn briodol i gyflawni eu hamcanion
- yn ymarferol, ac yn nodi'n gynhwysfawr unrhyw risgiau i'w cyflawni a sut y byddant yn cael eu rheoli
- yn sicrhau rhaglen gydlynol o weithgareddau ar draws y pedwar llinyn cyflwyno
- yn cyfrannu at ddatblygu arferion ymgolli creadigol ar draws y DU
- yn hyrwyddo amrywiaeth yn rhagweithiol ac yn darparu cyfleoedd teg a chyfartal i sefydliadau creadigol a diwylliannol ledled y DU

- os yn berthnasol, yn defnyddio methodoleg glir a thryloyw
- yn crynhoi unrhyw waith perthnasol blaenorol a wnaed gan yr arweinydd canolbwynt a'r partneriaid prosiect, gan ddisgrifio sut y bydd hyn yn cael ei flaenu trwy gyflenwad XRtistiaid
- yn uchafu trosiad allbynnau yn ganlyniadau ac effeithiau
- yn disgrifio sut y bydd amgylchedd ymchwil eu tîm (o ran y lle, ei leoliad, enw da a pherthnasedd i'r prosiect) yn cyfrannu at lwyddiant y gwaith

Adran: gallu ymgeisydd a tîm i ddarparu

Ydy'r ymgeiswyr wedi darparu tystiolaeth o sut maen nhw, ac os yn berthnasol eu tîm, â'r canlynol:

- y profiad perthnasol (sy'n briodol i gyfnod gyrfa) i gyflawni'r gwaith arfaethedig
- y cydbwysedd sgiliau ac arbenigedd cywir i ymdrin â'r gwaith arfaethedig
- y sgiliau arwain a rheoli priodol i gyflawni'r gwaith a'u dull o ddatblygu eraill

Adran: cynllun rheoli data (CRhD)

Mae'r ymgeiswyr wedi dangos y canlynol yn eu CRhD:

- Mae'r dull o reoli data yn briodol ar gyfer y prosiect ymchwil sy'n cael ei gynig
- Bydd y CRhD yn galluogi creu, allbynnau ac anghenion storio data'r prosiect
- Mae'r cynllun ar gyfer data yn ymarferol, yn synhwyrol, yn briodol ac yn ddilys

Adran: moeseg ac ymchwil ac arloesedd cyfrifol (YAC)

Ydy'r ymgeiswyr wedi nodi a gwerthuso'r ystyriaethau moesegol neu YAC perthnasol, neu'r ddau, a sut y byddan nhw'n cael eu rheoli?

Adran: adnoddau a chyfiawnhad costau

Ydy'r ymgeiswyr wedi dangos sut mae'r adnoddau maen nhw'n rhagweld sydd eu hangen ar gyfer eu gwaith arfaethedig:

- yn gynhwysfawr, yn briodol, ac yn gyfiawn
- yn cynrychioli'r defnydd gorau posibl o adnoddau i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig
- yn uchafu'r canlyniadau a'r effeithiau dichonadwy
- sut y bydd y gyllideb neilltuedig ar gyfer cyllid datganoledig yn cael ei dyrannu

Manylion cyswllt

Cael help gyda'ch cais

I gael help gyda chostiadau ac ysgrifennu eich cais, cysylltwch â'ch swyddfa ymchwil. Neilltuwch ddigon o amser ar gyfer proses gyflwyno eich sefydliad.

Holi am y cyfle ariannu hwn

Ebostiwch: support@funding-service.ukri.org

Ein nod yw ymateb i e-byst o fewn dau ddiwrnod gwaith.

Ffôn: 01793 547490

Mae ein llinellau ffôn ar agor:

- Ddydd Llun i Ddydd Iau 8:30yb i 5:00yp amser y DU
- Dydd Gwener 8.30yb i 4:30yp amser y DU

Gwybodaeth ychwanegol

Gweminar i ymgeiswyr posib

Byddwn yn cynnal dau weminar o fewn chwe wythnos yn dilyn agor y cyfle ariannu. Bydd y gweminarau hyn yn rhoi mwy o wybodaeth am y cyfle ariannu ac yn rhoi cyfle i ddarpar ymgeiswyr ofyn cwestiynau.

Cyfeiriwch yn ôl i'r dudalen we hon yn ystod yr wythnosau nesaf am fwy o fanylion.

Cynnwys cysylltiedig

[Polisiâu a safonau UKRI](#)

[Canolfan adnoddau ymchwil da](#)